

Stondin Nadolig

Beth am gael y plant i gynllunio a chreu eu stondin Nadolig eu hunainar gyfer y dosbarth? Holwch pa syniadau sydd ganddyn nhw am bethau i'w creu. Beth fyddant yn ei ddefnyddio i greu ac addurno'r stondin? Pa nwyddau a ellir eu creu i'w gwerthu? Meddyliwch am yr adnoddau naturiol y gellir eu defnyddio. Beth yw'r amseroedd agor a chau? Pa ddyddiau o'r wythnos fydd y stondin ar agor? Gofynnwch i'r plant greu eu rhestrau prisiau, labeli, rhestr stoc, posteri i'w hysbysebu ac ati.

Mae llawer o elfennau Mathemateg / rhifedd yn yr ystod o weithgareddau:

arian- adnabod darnau arian, cyfrif cyfansymiau, rhoi newid-

cyfrif, adio, cyfrif ymlaen, dod o hyd i'r gwahaniaeth

mesur - pwysau, cyfaint

cymesuredd

cadw stoc

amser/ dyddiau'r wythnos

Syniadau posib:

Gwneud bisgedi siâp ceirw / bwyd carw:

Trafodwch pa gynhwysion y gellir eu defnyddio i wneud bwyd carw? Beth fyddai'n ddiogel iddyn nhw ei fwyta? Darparwch amrywiaeth o gynhwysion i'r plant gael dewis ac arbrofi.

- Ceirch
- Hadau
- Hadau blodyn haul
- Hadau pwmpen
- Llugaeron
- Bricyll sych
- Swltanas
- Sinsir
- Sinamon
- Sbeis cymysg
- Olew lafant

Darparwch amrywiaeth o offer i bwysu ee clorian, pwysau (weights), clorian ddigidol. Gofynnwch i'r plant bwysu'r cynhwysion - gan ddefnyddio unai pwysau safonol neu ansafonol.

Mesurwch yr hylif sydd ei angen, gadewch i blant ddewis yr offer mesur ac arbrofi gydag ansawdd y gymysgedd ee- gan ddefnyddio mesurau safonol / ansafonol

Datrys problemau -A allwch chi wneud bag o fwyd carw gyda 4 cynhwysyn gwahanol sy'n pwysu'r un faint â 4 moch coed mawr?

Allwch chi wneud bag o fwyd ar gyfer ceirw – y bag yn pwysu 100g, gyda 5 cynhwysyn gwahanol?

A allwch chi wneud bag sydd ee yn pwyso 90g gan ddefnyddio'r gymhareb 1/3 – tri chynhwysyn gyda thraean o bob cynhwysyn

Faint fydd pob bag yn ei gostio?

Oes modd cael bargaen? 3 am bris 2?

Gwerthu bagiau o addurniadau / adnoddau naturiol

Sawl sgŵp? Darparwch sgwpiau o wahanol feintiau

Gofynnwch i'r plant amcangyfrif faint o eitemau fesul sgŵp.

Prisiau ar bob sgŵp - bach, canolig, mawr

Gofynnwch i'r plant brisio a phwyso'r eitemau ee 100g = 50c

Beth fydd cost dau fag 100g? Beth fydd pris hanner bag?

Addurn bwrdd

Gallai'r plant greu eu haddurn bwrdd Nadolig eu hunain i'w werthu ee torch, cadwyn neu addurn hir i'w hongian.

Gellir rhoi prisiau ar wahân ar gyfer blociau ewyn (oasis) o wahanol feintiau er mwyn eu haddurno.

Allwch chi dorri darnau llai o faint allan o un bloc 15cm o ewyn i greu eich addurniadau bwrdd?

Tasg bosibl - mae gennych e.e. £1 i'w wario i greu eich addurn bwrdd - beth allwch chi ei brynu a'i greu am £1?

Allwch chi wneud eich addurn bwrdd yn gymesur?

Allwch chi wneud patrwm ailadroddus ar eich addurniad hir i'w hongian?

Rholiwch ddis - casglwch y nifer o adnoddau a ddangosir ar y dis i greu eich addurn.

Amcangyfrifwch - faint o eitemau fydd yn ffitio ar yr ewyn i'w haddurno?

Creu eich teganau pren eich hun i'w gwerthu

Yn dilyn ein cyflwyniad i waith coed yn ystod ein gweithdy cyfnod sylfaen y llynedd, fe allech chi ofyn i'r plant feddwl am, a gwneud, eu teganau pren eu hunain i'w gwerthu ar y stondin.

Yr elfennau mathemategol posibl o a allwch eu datblygu o fewn yr weithgaredd – arian, maint, siâp, ymwybyddiaeth o ofod, cyfrif, mesur.

Darparwch ystod o adnoddau -

Rhowch ddarnau pren mewn basgedi o wahanol feintiau / siapiau – gyda phrisiau ar y basgedi

hoelion a sgriwiau o wahanol faint
morthwylion
sbectol amddiffynnol
mynawyd (bradawl)
llif Siapanäidd

Mae'r nifer o sgiliau a ddatblygir yn yr weithgaredd hwn yn sylweddol.

Er mwyn cyfoethogi'r ddarpariaeth gellir ychwanegu:

caeadau poteli
botymau
darnau o ddefnydd
olwynion pren/ corc
cardfwrdd
gleiniau y gellir eu taro gyda morthwyl
llinyn
dalwyr goriadau
bandiau lastig
pinnau ffelt

Fe allech nodi na ddylai'r tegan fesur mwy na 20cm o hyd a lled, neu ddim mwy na hyd/lled 5 moch coed o faint canolig.

Yn ystod y gweithgaredd bydd y plant yn gorfod dewis hyd y sgriwiau / hoelion sydd eu hangen i osod y darnau o bren neu adnoddau eraill yn sownd yn ei gilydd. Bydd hefyd angen penderfynu pa mor bell y dylid morthwyllo / sgriwio hoelion / sgriwiau i mewn i'r darn o bren. Bydd meddwl yn feirniadol a chreadigol yn datblygu'n naturiol trwy gydol y broses oherwydd natur benagored yr her a'r ddarpariaeth.

Gellir cyfoethogi'r gweithgaredd fel a ganlyn hefyd -

Rhyngweithio gydag oedolion
Cwestiynu a chymell effeithiol
Darparu cyfoeth o adnoddau

Gall plant brisio eu tegan trwy adio'r holl wariant ar yr eitemau oedd eu hangen i wneud y tegan. Faint fydd y pris gwerthu? Faint o elw a wneir?

Faint o amser gymerodd hi i greu'r tegan? Faint fyddwch chi'n ei godi am eich amser?

Eitemau eraill posibl y gellir eu gwneud a'u gwerthu ar y stondin:

Doliau pegiau pren gyda deunyddiau naturiol, corachod, tylwyth teg,

Peli persawrus ar gyfer y bath

Llun allan o flodau wedi'u gwasgu

Fframiau lluniau naturiol

Persawr naturiol

Daliwr goriadau

Dodrefn bach ee ar gyfer tŷ doliau / tŷ tylwyth teg / tŷ corachod